

BREEZE, SAMUEL (1772 - 1812), gweinidog gyda'r Bedyddwyr

Enw: Samuel Breeze
Dyddiad geni: 1772
Dyddiad marw: 1812
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Bedyddwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Morris Brynllwyn Owen

Hanoedd o blwyf Llandinam a dechreuodd ei yrfa trwy gadw ysgol yn y Dolau, Maesyfed, lle hefyd y'i bedyddiwyd (1793). Symudodd i gadw ysgol ym Mhenrhynoch, ger Aberystwyth, 1794, a dechreuodd bregethu yn 1795. Urddwyd ef 12 Mehefin 1803 i fod yn un o ddau i ofalu am Fedyddwyr cylch Aberystwyth, ond symudodd i Gastellnewydd Emlyn fis Mawrth 1812. Bu farw 28 Medi 1812, a chladdwyd ef yng Nghilfowyr.

Awdur

Y Parchedig Morris Brynllwyn Owen, (1875 - 1949)

Ffynonellau

Christmas Evans, *Marwnad, er coffadwriaeth am y Parch. Samuel Breeze, Gweinidog yr efengyl yn Aberystwyth â€; a fu farw Medi 28, 1812, yn 40 oed* (Aberystwyth 1812)
Saunders, *Marwnad, er coffadwriaeth am y Parch. Samuel Breeze, gynt gweinidog yr Efengyl yn Aberystwyth, ond yn ddiweddar yn Nghastell newydd yr hwn a aned yn agos i Llanidloes, yn y flwyddyn 1772 â€;* (Aberystwyth 1812)

David Jones, *Hanes y Bedyddwyr yn Neheubarth Cymru* (1839), 100-4, 404-5

Y Greal sef Cylchgrawn Misol at wasanaeth y Bedyddwyr, 1829, 129, 193

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (AberdŶr 1867-70), i, 41-2

Archifau LIGC: NLW MS 2183A; NLW MS 2184A; NLW MS 2185A; NLW MS 2186A; NLW MS 2187A

Darllen Pellach

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907), t.32

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734382

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Yfrannu

Arddull APA

x

Owen, M. B., (1953). BREEZE, SAMUEL (1772 - 1812), gweinidog gyda'r Bedyddwyr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-BREE-SAM-1772>

Yfrannu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddi
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government